| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Y Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **06 Tachwedd 2023** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau** |
| **Pwrpas :** | **Er gwybodaeth** |

## 1. Cefndir

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

## 2. Penderfyniadau

2.1 Ceir crynodebau o'r penderfyniadau a dderbyniwyd wrth yr Ombwdsmon fel **Atodiad**

## 3. Ffurf yr Adroddiad

3.1 Ar hyn o bryd cyflwynir y wybodaeth mewn ffurf crynodebau heb fanylion penodol. Gellid cyflwyno'r wybodaeth yma fel eitem eithriedig (h.y. gan eithrio'r wasg a'r cyhoedd) fel bod modd cyflwyno'r wybodaeth gyflawn a ddarperir gan yr Ombwdsmon i alluogi'r Pwyllgor drafod yn fanylach oblygiadau'r penderfyniadau o safbwynt dehongli'r Cod Ymddygiad.

## 4. Argymhelliad

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth

4.2 Gofynnir am farn y Pwyllgor ar yr awgrym ym mharagraff 3.1 uchod.